

# Adroddiad Perfformiad Gwasanaethau Corfforaethol

Switch to English

Crynodeb Mesuryddion Meintiol

Adrannol

Caffael

Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Cyswllt Cwsmer a Cofrestru

Dysgu a Datblygu'r Sefydliad

Gwasanaethau Cefnogol

Democratiaeth a Iaith

Iechyd, Diogelwch a Llesiant

Ymchwil a Gwybodaeth

Ymgynghorol Adnoddau Dynol

Dewis Blwyddyn: 2025-2026 | Dewis Chwarter: Chw 4 | Dewis Mis: Mawrth

# Mesuryddion Meintiol

Switch to English

## Mesuryddion Adrannol

| Mesurydd | Gwerth | Maes |
|---|---|---|
| GC1 - % o staff yr adran sydd wedi cwblhau Teitl Mandadol Cam-drin Domestig | 98.5% | Adrannol |
| GC2 - % o staff yr adran sydd wedi cwblhau Teitl Mandadol Diogelu | 97.7% | Adrannol |
| GC3 - Nifer dyddiau salwch staff y pen yn yr Adran ar gyfartaledd | 11.91 | Adrannol |
| GC4 - % ceisiadau rhyddid gwybodaeth atebwyd o fewn 20 dydd gwaith yn yr Adran | 100.0% | Adrannol |
| GC5 - % staff yr Adran sydd wedi cwblhau'r Asesiad Iaith | 94.1% | Adrannol |

## Mesuryddion Gwasanaeth

| Mesurydd | Gwerth | Maes |
|---|---|---|
| CA01 - % o wariant refeniw caffael gyda chyflenwyr lleol | 61% | Caffael |
| CC04 - Cyfartaledd ateb Canolfan Gyswllt (eiliadau) | 42 | Cyswllt Cwsmer a Chofrestru |
| CC05c - Nifer dyddiau cyfartalog i benderfynu ar gymhwysedd unigolyn, am Fathodyn Glas | 1.34 | Cyswllt Cwsmer a Chofrestru |
| CE09 - % staff sydd heb adnewyddu DBS yn amserol | 1.1% | Gwasanaeth Cefnogol |
| ID2.1 - % o weithwyr sydd wedi dychwelyd i'r gwaith yn dilyn cael cyngor gan IG yn dilyn iddynt g... | 37% | Iechyd, Diogelwch a Llesiant |
| YG1 - Nifer digwyddiadau gwybodaeth | 5 | Ymchwil a Gwybodaeth |
| YG2 - % ceisiadau rhyddid gwybodaeth atebwyd o fewn 20 dydd gwaith | 93.2% | Ymchwil a Gwybodaeth |
| YG3 - % ceisiadau diogelu data atebwyd o fewn yr amserlen | 79.6% | Ymchwil a Gwybodaeth |
| AD01 - Nifer o ddyddiau salwch staff y pen yn y Cyngor ar gyfartaledd | 13.01 | Ymgynghorol Adnoddau Dynol |
| AD04 - Nifer dyddiau cyfartalog i gwblhau arfarniad swydd | 23.2 | Ymgynghorol Adnoddau Dynol |

Dewis Blwyddyn
2025-2026

Dewis Chwarter
Chw 4

Dewis Mis
Mawrth

# Adrannol - Ian Jones


**Pwrpas**

Switch to English

## GC1 - Teitl Mandadol - Cam-drin Domestig (Chwarterol)

**Canran o staff yr adran sydd wedi cwblhau Teitl Mandadol Cam-drin Domestig**

**Blwyddyn** ● 2025-2026





**Sylw**

Mae 98.5% o staff yr Adran wedi cwblhau hyfforddiant mandadol ar Gam-drin Domestig. Mae'r ffigwr ychydig yn is na Chwarter 3, hynny o ganlyniad i drosiant staff. Mae gwaith parhaus yn digwydd i annog staff sydd heb gwblhau'r hyfforddiant i'w wneud cyn gynyed a phosib.

## GC2 - Teitl Mandadol - Diogelu (Chwarterol)

**Canran o staff yr adran sydd wedi cwblhau Teitl Mandadol Diogelu**

**Blwyddyn** ● 2025-2026





**Sylw**

Mae 97.7% o staff yr Adran wedi cwblhau hyfforddiant mandadol Diogelu. Mae'r ffigwr ychydig yn is na Chwarter 3, hynny o ganlyniad i drosiant staff. Mae gwaith parhaus yn digwydd i annog staff sydd heb gwblhau'r hyfforddiant i'w wneud cyn gynyed a phosib.

## GC3 - Nifer Dyddiau Salwch (Chwarterol)

**Cyfradd absenoldeb salwch fesul pen yn yr Adran (ffigwr cronnus)**

**Blwyddyn** ● 2025-2026





**Sylw**

Dros y pedwar chwarter eleni, gweler cynnydd graddol yn ffigyrau salwch yr adran. Mae'r data'n dangos patrwm cyson o gynnydd chwarter wrth chwarter. Rydym fel Adran yn ymwybodol o'r ffactorau sydd yn cyfrannu at y duedd, ac yn parhau i fonitro'r sefyllfa er mwyn deall yr achosion sylfaenol a nodi camau priodol i'w rheoli.

## GC4 - Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth (Chwarterol)

**Canran ceisiadau rhyddid gwybodaeth atebwyd o fewn 20 dydd gwaith yn yr Adran**

**Blwyddyn** ● 2025-2026





**Sylw**

Derbyniodd yr Adran 81 cais rhyddid gwybodaeth yn ystod 2005/26. Atebwyd pob cais o fewn y 20 diwrnod gwaith.

## GC5 - Asesiadau Iaith (Chwarterol)

**Canran staff yr Adran sydd wedi cwblhau'r Asesiad Iaith**

**Blwyddyn** ● 2025-2026




**Sylw**

Mae gostyngiad bach iawn yn y nifer sydd wedi cwblhau'r asesiad iaith y chwarter yma o'i gymhaur a Chwarter 3. Mae hynny oherwydd fod aelodau staff newydd wedi ymuno a'r Adran yn ystod y chwarter a ddim wedi cwblhau'r asesiad.

Mae gwaith parhaus yn digwydd i annog y staff hynny sydd heb gwblhau'r asesiad i wneud hynny cyn gynted a phosib.

Dewis Blwyddyn 2025-2026 | Dewis Chwarter Chw 4 | Dewis Mis Mawrth

# Caffael - Arwel Evans

**Pwrpas**

Galluogi'r Cyngor i anelu at werth am arian, cadw'r budd yn lleol a gwella safon caffael y Cyngor


Switch to English

## Risgiau Cyfredol

| Risgiau Coch | Risgiau Oren | Risgiau Melyn | Risgiau Gwyrdd | |
|---|---|---|---|---|
| | | 5 | 1 | Cliciwch yma i weld y risgiau |

## CA01 - Cyflenwyr Lleol (Chwarterol)

**Canran o wariant refeniw caffael gyda chyflenwyr lleol**




**Sylw**

Mae'r canran lleol wedi cynyddu 2% i 61% o gymharu a Chwarter 4 flwyddyn diwethaf.

Mae'r prif resymau am y cynnydd ynghlwm a:

Gwariant pellach o Cronfa Ffyniant Cyffredin (Shared Prosperity Fund) gyda Colegau Lleol o £1.2m
Gwariant pellach mewn gwaith rheoli llifogydd o £1.7m
Cynydd yn gostau darpariaeth Gofal gyda darparwyr lleol presenol.


Mae cyfanswm gwariant refeniw ar gyfer 2025/26 yn £191m gyda £116.5m yn cael ei wario yng Ngwynedd.

Mae'r prif feysydd ble mae gwariant yn gadael y Sir dros y flwyddyn yn parhau i fod yn gynlluniau Adeiladwaith Arbenigol, Systemau TG a Gofal Preswyl i Oedolion a Phlant.

Gyda pryniant mewn meysydd fel Gofal Cartref, Tai a Chefnogaeth, Cludiant Ysgolion, Hurio Offer ac Ailgylchu yn cael ei ddarparu gan gwmnïau lleol.

## CA02 - Hunan-asesiad Caffael (Blynyddol)

**Datblygu'r maes Caffael (Sgôr 0-5)**




**Sylw**

Rydym wedi cychwyn drafftio Cynllun Gweithredu ar gyfer y Strategaeth Caffael newydd. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar y saith blaenoriaeth gwella rydym wedi adnabod sef, budd lleol, carbon sero, gwerth am arian, gwerth cymdeithasol, technoleg, trefniadau llywodraethu ac y Gymraeg.

Mae'r drafft terfynol o'r Polisi Caffael newydd wedi gylchredeg ymysg y Timau Categori ac Rheolwyr Gwasanaethau Corfforaethol am sylwadau.

Rydym yn ceisio datblygu Mesurau Caffael ac Adroddiad Blynyddol yn unol ar anghenion y Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus, byddwn angen ymgynghori ar y mesurau perfformiad terfynol byddwn yn gyhoeddi. Mwyaf thebyg bydd rhain yn cynnwys: Gwariant Lleol, Gwerth am Arian, Gwerth Cymdeithasol, Lleihau Carbon, Hybu defnydd o'r Gymraeg a defnydd o dechnoleg.

Rydym wedi cynnal yr ymarferiad i gwblhau'r hunanasesiad caffael yn ystod y mis gan ofyn i Swyddogion y Timau Categori a Caffael gwblhau'r holiadur.

Mae'r sesiynnau hyfforddi yn parhau, gyda sesiwn Hyfforddiant Caffael a Chontractau wedi gynnal yn ystod mis Mawrth.

Dewis Blwyddyn: 2025-2026 | Dewis Chwarter: Chw 4 | Dewis Mis: Mawrth

# Gwasanaeth Cefnogol - Mari P Jones

## Pwrpas

- Cynnal gwybodaeth strwythur staffio Adrannau
- Recriwtio a Penodi unigolion yn gyfreithiol i swyddi
- Galluogi staff y Cyngor gael mynediad at wybodaeth yn y system Hunan Wasanaeth Staff
- Cynnal a datblygu rhaglen Buddiannau i staff y Cyngor
- Darparu Gwasanaeth Argraffu a Post ynghyd a gweinyddiaeth ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth i Adrannau'r Cyngor, yn ogystal a prosesu archebion ac anfonebau
- Perchnogaeth a chyfrifoldeb am weithredu trefniadau Cwynion a Gwella Gwasanaeth y Cyngor


Switch to English

## Risgiau Cyfredol

| Risgiau Coch | Risgiau Oren | Risgiau Melyn | Risgiau Gwyrdd | |
|---|---|---|---|---|
| | | 4 | 1 | Cliciwch yma i weld y risgiau |

## CE01 - Cytundebau Cyflogaeth

**Cyflwyno cytundeb cyflogaeth (sydd yn gyfreithiol i fod wedi eu cyflwyno) cyn neu erbyn dyddiad cychwyn y gweithiwr**





### Sylw

Mae'r Adrannau yn parhau i fod yn anfon gwybodaeth hwyr ymlaen (15%). Mae trefn wedi'i sefydlu i gysylltu â rheolwyr ac arweinwyr tîm ar ôl i gyfweliadau gael eu trefnu drwy Hunanwasanaeth Staff. Pwrpas hyn yw egluro'r drefn recriwtio a phenodi y mae'n ofynnol ei dilyn, yn ogystal â phwysleisio'r angen i gyflwyno manylion yr ymgeisydd llwyddiannus yn brydlon. Mae hyn gogyfer sicrhau bod cytundeb cyflogaeth yn cael ei anfon i ymgeiswyr mewn modd amserol, a bod y gwiriadau diogelu angenrheidiol yn cael eu rhoi ar waith heb oedi.

## CE02 - Bodlonrwydd Cwsmer - Ymgeiswyr Swydd (Chwarterol)

**Ymgeiswyr am swydd - "A ydych yn hollol fodlon gyda'r Gwasanaeth a derbynioch gan Cefnogol?"**





### Sylw

Cyflwynwyd 1088 o geisiadau am swyddi yn ystod y chwarter 4 ac mae 73% o ymgeiswyr wedi cwblhau adborth am ei bodlonrwydd o'r broses ymgeisio am swydd. Mae 94% o'r adborth yn hollol hapus gyda'r drefn. Allan o'r 6% mae'r sylwadau sydd wedi eu nodi yn sylwadau na fyddwn yn rhoi sylw pellach iddynt ar hyn o bryd e.e methu llwytho CV i fyny, ddim yn hoffi y rhan rhoi cymwysterau i fewn gan na fydd adnodd pellach yn cael ei roi i wella'r system bresennol. Bydd y system newydd fydd yn cael ei chyflwyno at ddiwedd y flwyddyn yn cyfarch rhai o'r sylwadau yma.

Negeseuon diolchiadau yn cael eu derbyn gan y Cyhoedd am gefnogaeth y Swyddog Gwella Gwasanaeth am y drefn gwynion. Mae'r adborth yn weledol ar y ar y Mewnrwyd.

## CE03 - Bodlonrwydd Cwsmer - Gwasanaethau'r Cyngor (Chwarterol)

**Gwasanaethau'r Cyngor - "A ydych yn hollol fodlon gyda'r Gwasanaeth a derbynioch gan Cefnogol?"**





### Sylw

Canmoliaeth a diolch yn cael ei dderbyn gan Staff a Rheolwyr am y gefnogaeth sydd yn cael ei roi iddynt gan staff Cefnogol pan maent yn eu cynorthwyo gyda ymholidau nau pan yn cwblhau tasgau gwaith. Sylw yn cael ei roi i wella unrhyw drefniant sydd yn derbyn adborth negyddol.

## CE04 - Tim Cyllid a Gweinyddol - Amserlenni

**Prosesu "Amserlenni" a dderbyniwyd i dalu cyflog i staff erbyn dyddiad cau y gyflogres**





### Sylw

Yr amserlenni wedi eu prosesu erbyn dyddiad cau y gyflogres

## CE08 - Tim Cyllid a Gweinyddol - HS11

**Prosesu "HS11" o fewn y terfyn amser sydd wedi ei osod**





### Sylw

Gostyngiad wedi bod yn y perfformiad oherwydd diffyg adnodd i fewnbynnu y ffurflenni yn amserol, hyn o ganlyniad i swydd wedi dod i ben yn sgil arbedion. Mae sylw yn cael ei roi i sicrhau bod y ffurflenni sydd a blaenoriaeth wedi cael eu mewnbynnu.

Gyda dyfodiad y modiwl HS11 yn weithredol yn llawn o'r 1af o Ebrill 2026 bydd y nifer ffurflenni papur yn gostwng yn sylweddol dros y mis nesaf gyda'r bwriad y byddent yn diflannu yn gyfan gwbl yn y diwedd.

## CE09 - DBS

**Canran staff sydd heb adnewyddu DBS yn amserol**





### Sylw

Y sefyllfa bresennol heddiw ydi bod 55 o staff heb adnewyddu DBS yn amserol. Mae 10 cais yn eistedd yn y DBS yn Lerpwl yn disgwyl eu prosesu. Mae 45 cais arall yn disgwyl i aelod staff neu rheolwr i fod yn gwirio'r dogfennau er mwyn eu rhyddhau i'w prosesu. Mae'r system yn cynhyrchu e-bost i'r aelod staff ar y 5ed diwrnod ac i'r rheolwr ar y 10fed diwrnod ac bob 5 diwrnod wedyn yn atgoffa yr angen i cwblhau y ffurflen DBS. Mae'r Grwp Gweithredol Diogelu chwarterol yn trafod perfformiad DBS yr Adrannau. Yn dilyn o'r Grwp yma sefydlwyd is grwp i drafod data DBS. Mae ffigwr yn newid yn dyddiol oherwydd bod staff yn cwblhau y ffurflenni a mwy o staff eraill yn dod i'r ffenest cyfnod adnewyddu.

## CE11 - Cwynion a Llwyddiannau

**Canran cwynion wedi eu ateb o fewn 20 diwrnod gwaith**




### Sylw

Pan fydd Cwynion a Phryderon yn cyrraedd y Gwasanaeth, mae'r Swyddog Gwella Gwasanaeth (SGG) yn cofnodi Cwynion Ffurfiol Dilys ac Annilys yn ogystal a Chwynion Anffurfiol Dilys ac Annilys ar daenlen excel ac yn anfon y cwynion rheini ymlaen drwy e-bost i'r Swyddogion perthnasol o fewn y Gwasanaethau am sylw. Nid yw'r Pryderon na'r Ceisiadau am Wasanaeth a dderbynnir yn cael eu cofnodi fan yma. Yn unol a'r Polisi perthnasol mae gan Wasanaeth 20 diwrnod gwaith i ymchwilio ac ymateb i gwyn. Bydd y SGG yn cadw golwg ar yr amser ymateb ac yn atgoffa'r Gwasanaethau o'r amserlen fel bo angen. Ar adegau mae methiant gan yr Adrannau i ateb o fewn yr 20 diwrnod, gall hynny fod am sawl rheswm gwahanol e.e swyddogion ddim ar gael i fedru ateb yn amserol, angen cyngor Cyfreithiol, angen mwy o wybodaeth neu ymchwiliad o fewn yr Gwasanaeth yn cymryd mwy nac 20 diwrnod.

Cyflwynir Adroddiad i'r Cabinet bob 6 mis ar berfformiad Cwynion a Gwella Gwasanaeth. Pryd hynny Cwynion Ffurfiol Dilys a Chwynion yr Ombwdsmon sydd yn cael eu cynnwys yn unig.

Mae gwaith yn dal i fynd yn ei flaen i geisio sicrhau fod y Gwasanaethau yn ceisio gwella eu perfformiad wrth ymgeisio i ateb yr achwynwyr yn amserol.
Y gobaith yw bydd y Siarter Cwsmer newydd yn gymorth efo hyn.

## CE12 - Llesiant Staff - Buddiannau (Chwarterol)

### Sylw

Gyda'r newidiadau wedi eu gwneud i'r Cynllun Beicio i'r gwaith ble mae'r uchafswm i'r swm wedi ei gynyddu i £5000 yn ogystal a'r cyfnod lesu wedi ei ymestyn i 3 blynedd, mae hyn wedi galluogi i staff fod yn prynnu beiciau trydan yn ogystal a beic traddodiadol. Mae 52 aelod o staff wedi manteisio ar y Cynllun ers Ebrill 2025 o gymharu a 37 o staff yn 2024/25 a 58 yn 2023/24.

Mae staff y Cyngor yn gallu talu cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol "AVC" sydd yn fudd Trethiannol iddynt. Mae oddeutu 11% o'r gweithlu yn flynyddol yn cyfrannu ac yn elwa o'r Cynllun. Bydd oediad yn amserlen y rhaglen oedd i fod mewn lle dros y misoedd nesaf i hyrwyddo Budd y Cynllun er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r cyfle sydd ar gael gyda cyfraniadau Pensiwn,, oherwydd mae'r Swydd bellach yn wag gan fod y Swyddog wedi gadael y Cyngor.

## CE99 - Gweithgaredd arall y Gwasanaeth

### Sylw

Rydym wedi derbyn cadarnhad mai system ITrent ydi system newydd Adnoddau Dynol a Cyflogau y Cyngor. Mae sefydlu ein anghenion a symud data i'r system newydd dros y misoedd nesaf yn mynd i fod yn golygu llawer o waith a pwysau ychwanegol ar staff y Gwasanaeth. Byddwn yn edrych i ymgyfarwyddo ein hunain gyda'r system a cydweithio gyda cwmni a'r gwasanaeth TG mewnol i fod yn lliniaru y broses o symud i'r staff. Rydym wedi dechrau cael ein cyflwyno i elfennau o'r system a bydd gwaith yn parhau am fisoedd i ddod, ynghyd a parhau gyda rhoi gwasanaeth arferol i ymgeiswyr swyddi allanol, staff a rheolwyr y Cyngor.

Bydd oediad am gyfnod gyda'r gwaith o hyrwyddo Buddiannau i staff tra byddwn yn ail edrych ar y trefniadau yn dilyn i'r swydd ddod yn wag ar ddiwedd y mis o ganlyniad i'r Swyddog adael cyflogaeth y Cyngor.

Dewis Blwyddyn: 2025-2026 | Dewis Chwarter: Chw 4 | Dewis Mis: Mawrth

# Cyfathrebu ac Ymgysylltu - Sion Williams

**Pwrpas**

Galluogi'r Cyngor i rannu gwybodaeth a chynnal sgwrs ddwyffordd gyda phobl Gwynedd, staff ac Aelodau Etholedig y Cyngor.
Galluogi'r cyhoedd i hunanwasanaethu ar wefan Cyngor Gwynedd 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos a chynnig ffordd fwy cost effeithiol o gysylltu â'r Cyngor am wasanaeth.


Switch to English

## Risgiau Cyfredol

| Risgiau Coch | Risgiau Oren | Risgiau Melyn | Risgiau Gwyrdd | Cliciwch yma i weld y risgiau |
|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | | |

## CY01 - Eitemau newyddion a/neu adroddiadau yn y wasg

**Nifer ar gyfartaledd o eitemau newyddion a/neu adroddiadau yn y wasg sy'n deillio o ddatganiadau i'r wasg rhagweithiol a gyhoeddwyd gan y Cyngor yn ystod y mis**




**Sylw**

Datganiadau rhagweithiol i'r wasg:

Dros y flwyddyn ddiwethaf, cyhoeddwyd 101 o ddatganiadau i'r wasg a arweiniodd at 416 eitem newyddion yn y wasg a'r cyfryngau. Mae hyn yn 4.1 eitem newyddion am bob datganiad a gyhoeddwyd.

Yn ystod 2025-26, mae materion sy'n deillio o gynllun ymateb y Cyngor i droseddau cyn-bennaeth a'r adroddiad Adolygiad Ymarfer Plant 'Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder' wedi denu sylw sylweddol. Roedd y mater trasig hwn yn destun cynllun cyfathrebu cynhwysfawr a chydweithio rhwng swyddogion, aelodau etholedig a phartneriaid o sefydliadau eraill. Y datganiad i'r wasg a gyhoeddwyd yn dilyn cyhoeddi adroddiad y AYP (Tachwedd 2025) a ddenodd y sylw mwyaf dros y flwyddyn, sef 23 eitem newyddion. Bu sylw sylweddol hefyd i ddatganiad i'r wasg a gyhoeddwyd ym mis Mai 2025 i amlinellu'r cynnydd cadarnhaol yn ffrydiau gwaith y Cynllun Ymateb, a arweiniodd at 9 eitem newyddion.

Tu hwnt i'r materion hyn, rhai o'r datganiadau i'r wasg eraill a gyhoeddwyd a arweiniodd at sylw da oedd: gwybodaeth am ail-agor Amgueddfa Lloyd George yn Mehefin 2025 yn dilyn buddsoddiad sylweddol (11 eitem newyddion); Cabinet y Cyngor yn trafod y Gyllideb yn mis Chwefror (arweiniodd at 9 eitem newyddion); a lansio ap i helpu pobl Niwroamrywiol a'u teuluoedd (a arweiniodd at 8 eitem newyddion).


Gwaith y wasg ymatebol:

Dros y flwyddyn ddiwethaf, darparwyd atebion i 534 o ymholiadau gan y wasg a'r cyfryngau. Rhai o'r materion a arweiniodd at ymholiadau lluosog oedd:

- Her gyfreithiol yn erbyn penderfyniad y Cyngor i fabwysiadu Erthygl 4 ac yn dilyn hynny gwrthod y cais am apêl;
- Tywydd garw, gan gynnwys nifer o stormydd sydd wedi effeithio'r sir dros y flwyddyn ddiwethaf;
- Materion sy'n codi o bwyllgorau'r Cyngor, gan gynnwys y Pwyllgor Cynllunio;
- Materion gweithredol megis cynlluniau i fynd i'r afael â digartrefedd; gwaith sydd wedi deillio o'r Corbett Arms yn Nhywyn; problemau gyda pharcio anghyfreithlon.

## CY02 - Sgôr y wefan

**Canran unigolion ddefnyddiodd y teclyn bodlonrwydd i gynnig sgôr am y wefan wnaeth nodi sgôr o 5 allan o 5**




**Sylw**

Cyfanswm ymweliadau â'r wefan yn 2025-26: 2,950,552

Cyfanswm wnaeth lenwi'r holiadur bodlonrwydd yn 2025-26: 1,474


Cyfanswm nifer wnaeth roi sgôr o 5 allan o 5 yn 2025-26: 1,320 = 90%

Manylion yr ymatebwyr wnaeth roi sgôr o 4 neu lai yn 2025-26:
- Cwyn am y wefan (cyfrifoldeb y Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu) = 42. Yn bennaf gan nad oedd modd dod o hyd i wybodaeth wrth ddefnyddio'r system chwilio. Rydym wedi comisiynu Technoleg Gwybodaeth i greu system chwilio newydd sy'n defnyddio Deallusrwydd Artiffisial i ddisodli'r un bresennol.
- Cwyn am y wefan (cyfrifoldeb Gwasanaeth penodol) = 34. Mae'r cwynion yn amrywio o fis i fis, e.e. unigolion eisiau derbyn calendr gwastraff ac ailgylchu drwy'r post, gwybodaeth ar y wefan heb ei diweddaru/yn anghywir.
- Cwyn am Wasanaeth penodol = 48. Mae'r cwynion yn amrywio o fis i fis, e.e. staff yn methu ateb galwadau ffôn, pris y gwasanaeth gwastraff gardd, pris meysydd parcio, Erthygl 4.
- Cwyn am sustem trydydd parti = 30. Mae'r cwynion hyn yn bennaf am fethu dod o hyd i gais cynllunio ar y wefan (sustem Tascomi) a methu dod o hyd i bapurau pwyllgor (sustem Moderngov).

Rydym yn datrys y cwynion sydd o fewn cyfrifoldeb Cyfathrebu ac Ymgysylltu gynted â phosib ar ôl eu derbyn. Mae'r cwynion eraill yn cael eu pasio ymlaen i'r Gwasanaethau perthnasol ac rydym yn eu cefnogi i'w datrys ble y gallwn.

## CY05 - Ceisiadau Gwasanaeth

**Nifer ceisiadau gwasanaeth sy'n cael eu cyflwyno ar-lein**




**Sylw**

Roedd 274,378 cais am wasanaeth wedi'i gyflwyno yn 2025-26. 12,829 cais yn fwy nac yn 2024-25.

Gwelodd rhai gwasanaethau leihad yn y ceisiadau a gyflwynwyd, e.e. Cais am fynediad ysgol 162 yn llai, Rhoi gwybod am fethu casgliad gwastraff ac ailgylchu 676 yn llai ac Archebu casgliad gwastraff gardd 606 yn llai na'r flwyddyn flaenorol.

Gwelodd nifer o wasanaethau gynnydd yn nifer y ceisiadau, e.e. Cais am docyn teithio 16+ 726 yn fwy na'r flwyddyn flaenorol, Cais am gyfarpar gwastraff ac ailgylchu 418 yn fwy, Rhoi gwybod am dwll yn y ffordd 249 yn fwy a Rhoi gwybod am lifogydd 152 yn fwy. Roedd un gwasanaeth - Archebu slot Canolfan Ailgylchu - wedi gweld cynnydd sylweddol eto eleni – 12,520 cais yn fwy na 2024-25. Roedd hynny'n rhannol am bod rhaid archebu slot dros y Nadolig a'r flwyddyn newydd yn 2025-26, yn wahanol i'r flwyddyn flaenorol.

Ym mis Medi 2025 cyflwynwyd ffurflen Ymholiad Tai newydd ar-lein, sy'n cael ei defnyddio gan y Siop un Stop Tai, a derbyniwyd 515 ymholiad ar-lein hyd at ddiwedd Mawrth 2026.

Yn ystod 2026-27 bydd nifer o brosiectau'n derbyn sylw yn cynnwys Ffurflen newydd ar gyfer rhoi gwybod am gasgliad gwastraff/ailgylchu wedi'i fethu (hyn o ganlyniad i'r gwasanaeth Amgylchedd yn prynu system swyddfa gefn newydd i reoli gwaith) a Ffurflen newydd ar gyfer ceisiadau mynediad ysgolion wedi'i integreiddio efo Fy Nghyfrif Cyngor Gwynedd (hyn o ganlyniad i'r gwasanaeth Addysg yn prynu system swyddfa gefn newydd i reoli ceisiadau).

## CY99 - Gweithgaredd arall y Gwasanaeth

**Sylw**

Gwefan y Cyngor:
- Llwyddwyd i wneud cynnydd sylweddol gyda'r gwaith o uwchraddio cynnwys y wefan i gydymffurfio â Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff Sector Cyhoeddus (Gwefannau ac Apiau Symudol) (Rhif. 2) 2018 a Deddf Cydraddoldeb 2010 a'r gwaith o baratoi'r wefan gorfforaethol newydd.

Gwefannau Cymdeithasol / Cyfathrebu Digidol:
- Yn ystod 2025/26, bu cynnydd o 2,549 yn nifer yr unigolion sy'n dilyn y Cyngor ar Facebook, ynghyd â 190 o ddilynwyr newydd ar Instagram.
Cynyddodd cyrhaeddiad cyfartalog Facebook (nifer cyfartalog o weithiau y dydd y mae gwahanol bobl wedi gweld eich cynnwys) i 17,661 sef cynnydd o 5,223 o'r flwyddyn flaenorol.
Y negeseuon mwyaf poblogaidd yn ystod y flwyddyn oedd negeseuon am rwydweithiau graeanu a thywydd garw a negeseuon am yr ymgynghoriad twristiaeth.
- Cynhyrchwyd 5 rhifyn o bodlediad Teulu Gwynedd ac maent i'w gweld a'u clywed a'r Spotify, Apple Music ac Amazon.

Ymgysylltu cyhoeddus:
- Cefnogwyd sawl ymarferiad ymgysylltu gan gynnwys Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur, Strategaeth Gwastraff ac Ailgylchu, Heneiddio'n Dda ac ymgynghoriad Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Cyfathrebu Mewn Argyfwng:
- Gweithredwyd Cynlluniau Cyfathrebu ar gyfer Storm Amy, Storm Bram, Cau Twnnel Conwy, Cau Pont Borth a chyfnodau estynedig o rew ac eira.

Dathlu Llwyddiant staff:
- Mae trefn newydd wedi ei roi mewn lle ar gyfer ymweliadau i ddathlu a chydnabod llwyddiant staff y Cyngor. Hyd yma, mae digwyddiadau wedi cael eu cynnal yn Amlosgfa Bangor, Cynllun Atal Llifogydd Bangor, Depo Cwm y Glo, Meithrinfa Goed Glynllifon a Depo Afon Wen.

Dewis Blwyddyn: 2025-2026 | Dewis Chwarter: Chw 4 | Dewis Mis: Mawrth

# Cyswllt Cwsmer a Cofrestru - Joanne Parry

**Pwrpas**

Pwrpas y Gwasanaeth / Uned: Cyswllt Cwsmer - "Rhoi cymorth prydlon a chywir i'n cwsmeriaid i gael mynediad at wasanaethau'r Cyngor, drwy ddarparu atebion, arweiniad a gwasanaethau"

Pwrpas y Gwasanaeth / Uned: Cofrestru - "Cynnal seremoniau a galluogi'r cyhoedd i gofrestru digwyddiadau a darparu copiau tystysgrif yn unol â gofynion y deddf"


Switch to English

## Risgiau Cyfredol

| Risgiau Coch | Risgiau Oren | Risgiau Melyn | Risgiau Gwyrdd | Cliciwch yma i weld y risgiau |
|---|---|---|---|---|
| | | 4 | | |

## CC03 - Galwadau i'r Ganolfan Gyswllt

**Nifer galwadau atebwyd**





**Sylw**

Dros y flwyddyn diwethaf, mae Galw Gwynedd wedi derbyn 125173 o alwadau ffôn, wedi ateb 120805 a colli 4368, yn golygu ein bod ni wedi ateb 3.61% o'r holl alwadau ffôn ddaeth mewn i Galw Gwynedd. Mae'r nifer o alwadau atebwyd yn llai o 5929 i gymharu a'r nifer atebwyd yn ystod 2024-25, ond mae'r nifer galwadau collwyd yn ystod 2025/26 wedi gostwng (gweler dangosydd CC03a) i gymharu a 9603 o alwadau collwyd yn ystod 2024/25 (gwahaniaeth o 5235). Mae hyn yn awgrymu nad ydi cwsmeriaid wedi gorfod ffônio yn ôl oherwydd eu bod nhw wedi cael ateb y tro cyntaf yn Galw Gwynedd.
Yn ystod Hydref 2025, mae Siop Un Stop Tai a Digartrefedd wedi newid eu trefniadau gwaith ac mae'r mwyafrif o'u cwsmeriaid yn mynd yn uniongyrchol i rif Tai erbyn hyn yn hytrach na Galw Gwynedd yn trosglwyddo galwadau iddynt, mae hyn yn dilyn cyflwyno system ffôn newydd Webex yn ystod Mai 2025, ble mae'r dechnoleg erbyn hyn yn ein galluogi i weithio yn fwy effeithlon wrth ddosbarthu galwadau sy'n dod i mewn. Mae hyn wedi arwain at welliant yn ein perfformiad, fel mae'r graff yn dangos.
O'r 120805 o alwadau atebwyd gan Galw Gwynedd yn ystod 2025/26, mae oddeutu 72000 o'r rhain unai wedi'u cofnodi fel ymholiad yn ein system CRM neu prosesu fel taliad gan staff Galw Gwynedd, yn golygu ein bod ni'n delio gydag oddeutu 60% o draffic ffôn o fewn y Ganolfan Gyswllt, heb drosglwyddo yr alwad i Wasanaeth arall. Ar ben hyn mae staff Galw Gwynedd hefyd yn delio gyda gwaith gweinyddol sy'n cael ei gynhyrchu drwy sianeli digidol yn ogystal â delio gydag ymholiadau sgwrs fyw.

## CC03a - Galwadau i'r Ganolfan Gyswllt

**Nifer galwadau collwyd**





**Sylw**

Fel sydd wedi'i nodi yn nagosydd CC03, mae'r nifer galwadau yr ydym wedi colli eleni yn llai na'r ffigwr gollwyd yn ystod 2024/25. Fe welwch o'r graff bod y perfformiad yn fwy sefydlog oherwydd ein gallu i reoli ein perfformiad yn well yn dilyn cyflwyno system ffôn newydd yn ystod y flwyddyn diwethaf. Yr ydym hefyd yn cydweithio yn agos gyda Gwasanaethau rheng flaen er mwyn ceisio osgoi cynnydd sylweddol mewn galwadau, e.e. wrth agor ceisiadau gwastraff gardd am y flwyddyn i ddod, yr ydym wedi osgoi cychwyn ar gyfnodau prysur er mwyn gallu ymdopi gyda'r nifer galwadau sy'n dod mewn. Fodd bynnag, pan mae Gwasanaethau yn cyflwyno newidiadau heb gyfathrebu gyda ni yn gyntaf, mae hyn yn cael effaith negyddol ar y cwsmer ac yn arwain at gynnydd annisgwyl mewn galwadau, gyda mwy o alwadau yn cael eu colli. Mae systemau digidol yn methu hefyd yn cael yr un effaith.

## CC04 - Galwadau i'r Ganolfan Gyswllt

**Cyfartaledd ateb galwadau (mewn eiliadau)**





**Sylw**

Perfformiad wedi bod yn sefydlog dros y flwyddyn diwethaf ac yn cyrraedd y safon Gofal Cwsmer newydd, ar gyfer ateb galwadau ffôn mor fuan â phosib ond o fewn 1 munud.
Mae 42 eiliad yn ffigwr cyfartalog sy'n golygu fod rhai cwsmeriaid yn disgwyl mwy nag 1 munud cyn cael ateb, a dyna fydd yr her ar gyfer 2026/27, cael y nifer o drigolion sy'n disgwyl mwy nag 1 munud i lawr. Ers cychwyn gyda'r system ffôn webex mis Mai, mae gennym fynediad at ddata nad oedd ar gael yn flaenorol. Mae adroddiad "dosbarthu galwadau" yn adrodd fod Galw Gwynedd wedi ateb 87629 o alwadau o fewn 1 munud, sydd yn 81% o'r holl galwadau atebwyd ers mis Mai 2025.

## CC05c - Bathodynnau Glas

**Nifer dyddiau i ddod i benderfyniad ar gymhwysedd unigolyn, am Fathodyn Glas (ceisiadau am flwyddyn)**





**Sylw**

Mae'r flwyddyn diwethaf wedi bod yn her i'r tîm bathodyn glas, yn dilyn cyhoeddiad y cwmni asesu annibynnol Able 2, eu bod yn stopio asesu ceisiadau gydag wythnos o rybudd. Mae hyn wedi arwain at nifer fychan o gwsmeriaid yn disgwyl llawer hirach am benderfyniad ar eu cais, gan nad oedd gennym fynediad at wasanaeth asesu annibynnol yn y cyfamser.
Mae cwmni newydd wedi'u penodi i wneud y gwaith gan Llywodraeth Cymru erbyn hyn, a ceisiadau nad ydym yn galllu dod i benderfyniad arnynt yn cael eu cyfeirio mlaen am asesiad pellach. Wrth i ni dderbyn canlyniadau yn ôl ar gyfer yr unigolion sydd wedi bod yn disgwyl peth amser am benderfyniad, yr ydym yn disgwyl i'r nifer dyddiau prosesu gynyddu, cyn sefydlogi eto pan fydd yr ôl groniad o geisiadau wedi'u cwblhau.

## CC06 - Webchat

**Nifer trafodion webchat**





**Sylw**

Mae nifer trafodion webchat wedi bod ar ei uchaf eleni, wrth i ni ddelio gyda 2,099 o drafodion sgwrs fyw yn ystod 2025/26 i gymharu â 710 yn ystod 2024/25. Mae'r cynnydd sylweddol i'w weld ym mis Tachwedd ac eto wedyn yn mis Ionawr oherwydd problemau PSBA, ble ddaru ni golli system Hunan Wasanaeth ar wefan y Cyngor am gyfnod (1 diwrnod mis Tachwedd a 1.5 diwrnod mis Ionawr) ond gyda'r niferoedd yn defnyddio'r sgwrs fyw yn parhau i fod yn uwch na'r flwyddyn blaenorol, ar ôl y ddau ddigwyddiad yma. Mae gennym 2 aelod o staff yn monitro'r sgwrs fyw rhwng 9 a 5 ble mae lefelau staffio yn caniatau.

## CC09 - Bodlonrwydd Cwsmer - Cofrestru

**Bodlonrwydd cwsmeriaid ar gyfer y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu**




**Sylw**

Neb wedi adrodd anfodlonrwydd gyda'r Gwasanaeth Cofrestru dros y flwyddyn diwethaf.

Dewis Blwyddyn: 2025-2026 | Dewis Chwarter: Chw 4 | Dewis Mis: Mawrth

# Dysgu a Datblygu - Mari Edwards

## Pwrpas

- Cefnogi a datblygu unigolion a thimau i gyflawni eu rôl i orau eu gallu, er mwyn darparu gwasanaethau o werth i bobl Gwynedd
- Datblygu a meithrin diwylliant sy'n galluogi staff ac Aelodau i roi o'u gorau ar gyfer pobl Gwynedd
- Denu a datblygu gweithlu briodol ar gyfer y dyfodol
- Cyfrannu at ddatblygu cynlluniau sy'n gwella gwasanaethau er llês Trigolion, Cymunedau Gwynedd a Busnesau Lleol


Switch to English

## Risgiau Cyfredol

| Risgiau Coch | Risgiau Oren | Risgiau Melyn | Risgiau Gwyrdd | Cliciwch yma i weld y risgiau |
|---|---|---|---|---|
| | 4 | 4 | | |

## DD1.1 - Hyfforddiant - Bodlonrwydd

I ba raddau mae'r hyfforddiant yn eich helpu i gyflawni eich rôl? (sgôr/10)




### Sylw

Wrth ddadansoddi yn fisol y sgôr mae mynychwyr wedi ei roi ar gyfer yr hyfforddiant maen nhw wedi ei fynychu, gwelwn fod llawer o'r teitlau yn derbyn 10 allan o deg yn gyson. Mae rhain yn gyrsiau sydd yn cael eu cynnal gan staff y Cyngor ar gyfer Rheolwyr yn bennaf.

Mae'r cyrsiau sydd yn derbyn y sgôr isaf yn tueddu i fod yn rai sydd yn cael eu rhedeg gan ddarparwyr allanol. Y sgôr isaf yw 8 allan o 10 - sydd ddim wir yn isel.

Mae'n amlwg o'r data yma fod staff y Cyngor yn gefnogol o'i gilydd ac yn gwerthfawrogi derbyn hyfforddiant gan arbenigwyr yn eu maes.

## DD1.2 - Rhaglenni Datblygol

### Sylw

Cynllun Prentisiaethau a Cynllun Yfory – Ar yr 16 o Ebrill, mae 20 swydd prentisiaeth a 6 swydd Cynllun Yfory ar agor. Mae strategaeth hyrwyddo ac ymgysylltu yn ei le a gobeithio y bydd ymateb da wedi ein cyrraedd erbyn diwedd Mai.

Arolwg Llais Staff – Bu i'r arolwg redeg am 5 wythnos. Ar y cyfan, roedd y niferoedd a ymatebodd i'r arolwg yn ffigwr tebyg iawn i'r llynedd. Wrth ddadansoddi yn fanylach, bu i niferoedd yr ymatebion gan adrannau sydd â llawer o staff swyddfa gynyddu e.e Gwasanaethau Corfforaethol a rhai adrannau wedi methu a chael llawer o staff i ymrwymo i'w gwblhau.

Croeso – Mae Grŵp Prosiect a Dogfen Sefydlu yn ei le i lywio'r Prosiect Cyfnod Croeso i lunio strwythur cyson a theg i holl aelodau newydd o staff y Cyngor.

Rhwydwaith Rheolwyr - Datblygu rhaglen a threfn fwy pendant i'r Rhwydweithiau Rheolwyr gan gynnwys treialu 'Paned efo Rheolwyr' am y tro cyntaf i annog mwy o rwydweithio rhwng Rheolwyr y Cyngor.

## DD1.3 - Datblygiadau

### Sylw

Maes Dysgu
* Sesiynau Peilot wedi eu cynnal
* Cyflwyniad Democratiaeth i Reolwyr (Ionawr 2026) – 'Mi oedd y cwrs yn wych, yn enwedig o ystyried mai hwn oedd y tro cyntaf i'w gyflwyno. Roedd yn hollol ymarferol, a'r wybodaeth wedi'i chyflwyno ar y lefel gywir'
* Cynnal Sgyrsiau Anodd (Chwefror 2026) – 'Mi fyddwn yn argymell yr hyfforddiant gan fy mod wedi dysgu llawer o sut i gynllunio sgwrs anodd, beth bynnag fo'r pwnc. Mae yn wybodaeth gellir ei drosglwyddo i nifer iawn o sefyllfaoedd'
* Caffael a Chontractau (Mawrth 2026) – 'Roedd yr hyfforddiant yn ddigonol i fy mhwrpas i, efallai buasai sesiynau sylfaenol ac uwch yn ddefnyddiol i'r rhai sydd angen mynd i mewn i'r pwnc yn fwy manwl'
* IOSH Rheoli'n Ddiogel wedi ei gynnal yn gyfan gwbl yn y Gymraeg am y tro cyntaf, h.y. wedi ei gyflwyno yn Gymraeg a gyda adnoddau / deunyddiau Cymraeg (Chwefror 2026) – 'Cymraeg yw fy iaith gyntaf a Chymraeg yw iaith gweithredu mewnol y cyngor felly rwyf yn credu ei fod yn holl-bwysig fod pob deunydd hyfforddiant ar gael yn y Gymraeg'
* Sesiynau Peilot i ddod (hyfforddwyr mewnol i gyd)
* Niwroamrywiaeth (Ebrill 2026)
* Penderfyniadau Da (Ebrill 2026)
* Technoleg Cymraeg (Ebrill 2026)

Maes Busnes a Chomisiynu
* Wedi mynd drwy'r broses caffael ar gyfer 3 teitl gwahanol yn ddiweddar (hysbysiad yn Sell 2 Wales)
* Darparwr allanol wedi ei gomisiynu i redeg yr hyfforddiant Cynnal Sgyrsiau Anodd (yn dilyn peilot llwyddiannus cychwyn mis Chwefror). Yr hyfforddiant yma yn benodol i reolwyr ac arweinyddion tîm.
* Mae gennym darparwr allanol yn rhedeg sesiwn peilot hyfforddiant Anabledd i ni fis Mai (oedi wedi bod efo hwn oherwydd amgylchiadau annisgwyl ochr y darparwr)
* Mewn trafodaethau efo darpawr allanol fydd o bosib yn medru rhedeg hyfforddiant Gwrth-Hiliaeth i ni.
* Y bwriad ydi mynd allan i chwilio am ddarparwyr ar gyfer yr hyfforddiant Pendantrwydd a hyfforddiant Perswadio a Dylanwadu nesaf.

Maes Dysgu Digidol
* E-fodiwlau newydd yn fyw ar y Porth e-ddysgu – Rheoli Gwybodaeth, Gwrth Hiliaeth, Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) ac Ymarfer sy'n Ystyriol o Drawma yng Cymru
* Polisïau sydd wedi ei derbyn yn Y Ganolfan bolisi yn cael ei fwydo i'r Hunanwasanaeth yn ddyddiol ac yn awtomatig – datblygiad technegol.
* Tudalen 'Wordpress' Gwasanaeth Dysgu a Datblygu wedi cael ei datblygu ar gyfer gweithwyr rheng flaen; disgwyl i'r safle mynd yn fyw yn y misoedd nesaf.
* MASTERCLASS - Darparu Hyfforddiant Effeithiol ar Microsoft Teams; wedi ei beilota a'i redeg.

Maes Diogelu
* Mapio allan categoriau swyddi yn derbyn sylw ar gyfer Diogelu a VAWDASV
* Trafodaethau angen digwydd yn dilyn hyn, efo'r Tim Cefnogol a TG o ran dynodi categori pob swydd, a sicrhau bod ffilter yn cael ei ychwanegu ar MODS lle sy'n dangos categori hyfforddiant Diogelu
* Tudalen Diogelu wedi cael ei greu a fydd yn rhoi mynediad i staff y Cyngor at wybodaeth allweddol am ddiogelu
* Fideo Hyfforddiant Diogelu Grwp A yn orffenedig (Cymraeg a Saesneg) ac yn cael ei belota gyda'r Adran Amgylchedd yn y lle cyntaf
* Yr Hyrwyddwr Diogelu Corfforaethol i fynd allan at Arweinyddion Timau y staff rheng flaen i fynd trwy'r broses (dangos y fideo, cael y staff i arwyddo cofrestr bresenoldeb, a dosbarthu posteri hyrwyddo, cofnodi y staff ar MODS)
* Y dair Adran arall yn cael sylw yn dilyn yr uchod (Addysg, Tai ac Eiddo, Priffyrdd a YGC)
* Is Grwp Hyrwyddo yn cwrdd 17/4 i drafod cynllun hyrwyddo Diogelu

Maes Iaith
* Canllaw Cefnogi Timau Dwyieithog – drafft wedi'i gwblhau ac yn y broses o dderbyn adborth.
* Prosiect Maes Gofal – disgwyl gallu dal ati am flwyddyn (heb gael caniatâd o gyllid eto). Mair Rees i barhau fel tiwtor. Dros 80 wedi holi am wersi ac oddeutu 50 wedi derbyn gwersi hyd yma (staff cartrefi gofal a gofal cartref).
* Dashfwrdd PowerBI Dynodiadau Iaith ar gael i benaethiaid adran – neges wedi mynd i bob pennaeth i dynnu sylw ato.
* Cymraeg Clir – wedi addasu dau swydd ddisgrifiad o'r maes gofal ar y cyd â Nia Lewis o'r Uned Iaith.
* Cwrs Gloywi Iaith 10 sesiwn wedi'i drefnu o Ionawr-Mawrth 2026.

## DD2 - Newid Diwylliant (Cyfraniad i Ffordd Gwynedd)

### Sylw

Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddadansoddi canlyniadau yr Arolwg Llais Staff diweddar. Bydd hyn yn ein cynorthwyo i greu grwpiau ffocws ac adnabod strategaeth wrth symud ymlaen gyda'r gwaith yma.


## DD3 - Blaenoriaethau

### Sylw

Gweithredu a datblygu ar y Fframwaith Dysgu a Datblygu (2025/2026) gan sicrhau ansawdd, mireinio ymgysylltu pwrpasol a hyrwyddo'r gwaith.
Datblygu Fframwaith ar gyfer Uwch Swyddogion ac Aelodau.
Ehangu ar ein fframweithiau darpariaeth hyfforddi/cefnogi drwy gyfarch anghenion yr ystod lefelau swyddi.
Parhau i ddatblygu a chefnogi gwaith Cynllunio'r Gweithlu a Datblygu Talent.
Parhau i sefydlu a gosod trefniadau Busnes a Chomisiynu er mwyn cael camau pendant o gomisiynu gwaith ac i sicrhau ansawdd i waith y gwasanaeth.

## DD4 - Hyfforddiant

Nifer hyfforddiant sydd wedi rhedeg yn fisol





### Sylw

Mae niferoedd uwch o hyfforddiant wedi bod yn digwydd er mis Ionawr nag yn y flwyddyn flaenorol. Wrth i'r Rhaglen Dysgu a Datblygu parhau i fod yn cael ei ddatlbygu a theitlau newydd yn cyrraedd y Panel, mae'n dda gweld bod mwy o amrywiaeth o gyrsiau yn cael eu rhedeg yn ogystal a mwy o deitlau yn rhedeg.

Ionawr – Nifer digwyddiadau 45; Nifer Teitlau 23
Chwefror - Nifer Digwyddiadau: 41; Nifer Teitlau: 21
Mawrth - Nifer Digwyddiadau: 37; Nifer Teitlau: 28

## DD5 - Staff a Chynghorwyr wedi derbyn Hyfforddiant

Nifer staff a chynghorwyr sydd wedi mynychu hyfforddiant yn fisol




### Sylw

Mae'r graff yn dangos y niferoedd o unigolion unigryw sydd wedi mynychu cyrsiau hyfforddiant. mae'n galonogol iawn gweld mwy o staff yn ymgysylltu â'r Rhaglen Dysgu a Datblygu ac yn elwa o allu mynychu'r cyrsiau newydd sydd yn cael eu darparu.

## DD6 - Adborth o Ddigwyddiadau

### Sylw

Ddim yn cynnwys adborth o sesiynau peilot.

Ionawr
DiSC - Diddorol clywed am y mathau gwahanol o weithwyr. Gallu edrych ar ymddygiad proffesiynol unigolion mewn ffordd wahanol yn dilyn yr hyfforddiant. Bydd yn help mawr i mi yn fy rôl i gallu cyfathrebu yn effeithiol gyda aelodau eraill yn y tîm.
Cyflwyniad i Democratiaeth i Reolwyr - Sesiwn gwych y dylai bawb gael, yn enwedig fel rheolwyr/arweinyddion tîm, er mwyn deall y Cyngor yn iawn. dwi'n gweithio'n y cyngor ers dros 15 mlynedd ond mi wnes ddysgu pethau dwi rioed wedi glywed / deall o'r blaen.
Cyflwyniadau Effeithiol - Creadigol. Ymarferion realistig fel esiamplau da.

Chwefror
Cyfathrebu clir - Wedi mwynhau pob agwedd o'r hyfforddiant ym heddiw, roedd yn ddefnyddiol iawn. Unig awgrym sydd gen i ydi bod ni yn cael neges/diweddariad bach bob 3-4 mis fel bod yr egwyddorion dal yn fyw i ni. Roedd yr astudiaethau achos yn ddifyr ac yr ymarfer o rhoi cynnig ar addasu brawddegau. Sesiwn ymarferol a diddorol lle gallaf ddefnyddio bob dim sydd wedi eu trafod mewn gwaith a bywyd go iawn. Diolch Llio - yn amlwg yn arbenigwr ac yn egluro'r egwyddorion yn dda iawn. Ymarferol iawn - cynyddu maint y testun ar y sleidiau. Egluro termau technegol yn gynharach e.e. "Cystrawen" / "gylunu" - falle nad yw pawb yn gwybod beth yw ystyr yr holl dermau.
Diogelu Data - Hyfforddiant defnyddiol ac ymarferol oedd yn hawdd i'w ddilyn ac yn cynnig gwybodaeth defnyddiol i waith dydd i ddydd. Cwrs diddorol iawn, 'refresher' gan ym mod heb fod ar gwrs diogelu data ers sawl blwyddyn bellach. Llawer iawn o arferion dda i'w ddefnyddio o'r cwrs.

Mawrth
Arwain Newid - Hyfforddiant yn sbarduno diddordeb rhywun i ymgymryd ar broses o newid, boed yn fach neu fawr. Cwrs ymarferol ac gwerthfawr.
*Y ffaith bod y cwrs yn ddiddorol iawn ac rydym yn cael gwneud tasgau ymarferol a oedd yn wirioneddol berthnasol i'n tîm. Roedd yr hyfforddwr yn wybodus iawn ac yn amlwg mae ganddo ddiddordeb yn y pwnc. Fe wnaethon ni symud o gwmpas yn ystod y cwrs a sefyll i fyny a symud y corff ychydig a oedd yn ddefnyddiol iawn i mi gan fod gen i ADHD. Roedd yn ddefnyddiol iawn cwblhau'r hyfforddiant hwn ar ddechrau fy swydd newydd fel arweinydd tîm ac roedd yn hynod fuddiol ymuno â gweddill fy nhîm gan y gallwn weithio gyda'n gilydd.
*Hyfforddiant difyr dros ben sydd yn mynd i fy helpu yn fawr iawn yn fy ngwaith i arwain y newidiadau sydd gennym ar y gweill. Mae rheoli y newid yn llawr cliriach ac threfnus wedi i mi fynychu ddoe. Mae wedi rhoi hyder i mi i Gynllunio a chyflwyno'r newid i'r tîm. Bydd 8 cam Kotter yn ddefnyddiol iawn. Tybed oes modd cael copi o'r cyflwyniad os gwelwch yn dda. Diolch yn fawr i Nia Meleri am hyfforddiant hwyliog, perthnasol a llawn gwybodaeth a chyngor.
Caffael a Chontractau - Sesiwn eglur o egwyddorion a phwrpas rheolau caffael- man cychwyn da. Help mawr i ddeall pryd mae angen gwneud ymholiadau am gyngor rhai fwy profiadol yn y maes a pwy yw'r pwyntiau cyswllt. O bosib byddai'n fuddiol teilwra sesiynau byr i lefelau gwahanol o fewn adrannau- fel bod dealltwriaeth glir ar bob lefel o beth yw'r egwyddorion, a beth sydd yn 'iawn'. I bwnc allai fod yn ddryslyd/ trwm roedd y sesiwn yn glir ac yn rhoi cyflwyniad cynhwysfawr... er nad wyf yn caffael, yn hytrach yn dilyn fframwaith, mae'n fuddiol deall beth ywr egwyddorion a'r gwaith sydd yn digwydd 'tu ól y llen'.
Cydraddoldeb – LHDTCRA+ - Roedd yr hyfforddwr yn wybodus iawn o'r pwnc. Cawsom sgyrsiau pwysig er mwyn deall pa eirfa sy'n priodol i'w ddefnyddio.

Dewis Blwyddyn: 2025-2026 | Dewis Chwarter: Chw 4 | Dewis Mis: Mawrth

# Democratiaeth a Iaith - Vera Jones

## Pwrpas


Cefnogi trefniadau democratiaeth y Cyngor a hyrwyddo'r Gymraeg yn barhaus
Cyfieithu - Darparu gwasanaeth cyfieithu safonol i'r Gymraeg a'r Saesneg ar bapur ac ar lafar i staff, aelodau a thrigolion Gwynedd
Democratiaeth - Darparu cefnogaeth o safon i Gynghorwyr Gwynedd
Iaith a Chraffu - Hyrwyddo a hybu'r defnydd o'r Gymraeg ymhob rhan o fywyd y sir ac arwain ar drefniadau craffu Gwynedd

Switch to English

## Risgiau Cyfredol

| Risgiau Coch | Risgiau Oren | Risgiau Melyn | Risgiau Gwyrdd | |
|---|---|---|---|---|
| | 4 | 3 | | Cliciwch yma i weld y risgiau |

## DI1 - Taflenni Penderfyniad




### Sylw

Cyhoeddwyd 109 o daflenni penderfyniad yn ystod 2025/26, a dim ond 3 a gyhoeddwyd yn hwyr. Cyhoeddwyd y diwrnod canlynol yn y tri achlysur, a gododd oherwydd disgwyl am sylwadau/caniatad a phroblem yn codi gyda'r system gyhoeddi.

## DI2 - Bodlonrwydd Aelodau (Blynyddol)

### Sylw

Da iawn - 88%, da - 11%
Gofynwyd am adborth gan aelodau am eu bodlonrwydd gyda'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnig gan y Tîm Democratiaeth. Adroddwyd ar yr ymatebion i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ym mis Chwefror 2026. Derbyniwyd 27 ymateb gyda 88% wedi nodi fod y gwasanaeth yn "dda iawn" a 11% yn nodi "da", sydd yn gynnydd o'r llynedd pan nododd un Cynghorydd fod y safon yn "dderbyniol". Amlygwyd argaeledd a phrydlondeb ymateb y tîm fel rhan o'r cefnogaeth o ansawdd.

## DI3 - Gwasanaeth Cyfieithu

### Sylw

Mae'r tîm wedi parhau'n brysur iawn yn y cyfnod yma, gyda galw mawr am ein gwasanaeth, yn enwedig cyfieithu ar y pryd, o fewn y Cyngor ac yn rhanbarthol a chenedlaethol.

Eleni, am y tro cyntaf ers blynyddoedd, mae'r tîm wedi bod yn gyflawn o ran nifer yr aelodau staff, yn sgil trosglwyddo cyfieithydd profiadol iawn o GwE fis Ebrill 2025. Yn ogystal, mae Cyfieithydd dan Hyfforddiant sydd wedi bod yn aelod o'r tîm ers 2023 bellach wedi cymhwyso ac yn chwarae rhan lawn yng ngwaith y tîm o ran cyfieithu ysgrifenedig a chyfieithu ar y pryd.

Yn anffodus, yr un heriau y mae'r tîm wedi'u hwynebu eleni eto:
- Y ffaith fod swyddogion o fewn Adrannau'r Cyngor yn defnyddio technoleg AI i gyfieithu eu dogfennau ffurfiol eu hunain yn achlysurol, ond hynny heb eu prawf-ddarllen yn ddigon manwl. Mae risg wirioneddol i'r Cyngor yn sgil hyn fod camgyfieithiadau yn mynd yn gyhoeddus - yn wir mae achosion o hyn wedi digwydd, neu o leiaf bron â digwydd. Tra bod y Tîm Cyfieithu yn defnyddio meddalwedd sydd bellach yn cynnwys cyfieithu peirianyddol, sy'n cyflymu ein prosesau cyfieithu yn arw, rydym yn sicrhau bod y cyfieithiadau hyn yn cael eu prawf-ddarllen yn ofalus er mwyn sicrhau cywirdeb a bod y safonau arferol yn cael eu cynnal.

- Fel sydd wedi'i adrodd yn flaenorol, mae'r dechnoleg yn ystafelloedd cyfarfod anffurfiol y Cyngor yn annigonnol i allu cynnal cyfarfodydd hybrid gyda chyfieithu ar y pryd yn llwyddiannus. Yn ogystal â hyn, mae'r elfen cyfieithu ar y pryd o fewn Teams yn dal i fod yn ddiffygiol ar rai achlysuron. Rydym yn dal i ddisgwyl am atebion gan TG ynglŷn â'r ddau fater yma.

Mae'r tîm wedi derbyn adborth ffafriol iawn gan ein cwsmeriaid o fewn y Cyngor a'r tu allan, a dyma ddetholiad o'r sylwadau hynny:

"Diolch yn fawr am y cyfieithydd yn y cyfarfod neithiwr, roedd yn ardderchog."
"Dim ond gair o ddiolch am eich gwasanaeth cyfieithu yn ein cyfarfod ddoe. Wir yn gwerthfawrogi eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth fel tîm."
"Gwasanaeth gwych, diolch yn fawr!"
"Wedi derbyn y cyfieithiadau. Diolch yn fawr iawn am y gwasanaeth prydlon."
"I am about to leave Cyngor Gwynedd after two years on an interim contract. I wanted to write to say that the service you offer is incredible. I have been amazed at the proficiency and professionalism of the staff supporting the CJC. Thank you for all your support and best wishes to you all."

## DI4 - Gwasanaeth Craffu ac Iaith

### Sylw

Bu'n flwyddyn prysur i'r tîm o ran y pwyllgorau craffu a'r prosiectau sydd ar waith i hybu defnydd o'r Gymraeg.

Llwyddwyd i gynnal a chefnogi cyfarfodydd craffu arferol drwy'r flwyddyn gan edrych ar amrywiaeth o bynciau, yn cynnwys adroddiadau herio perfformiad pob adran. O ganlyniad i gais gan yr aelodau cynhaliwyd dau gyfarfod arbennig i graffu cymllun ymateb adroddiad Cyfiawnder drwy ein Dewrder. Am y tro cyntaf cyflwynwyd cais i graffu eitem mewn pwyllgor gan aelod o'r cyhoedd, sef y cynllun hinsawdd. Parhawyd gyda gwaith Ymchwiliad trefniadau diogelu mewn ysgolion gan ymweld â 6 ysgol gynradd, 3 ysgol uwchradd, 1 ysgol arbennig ac 1 ysgol ddilynol yn ogystal a chynnal dau grŵp tasg a gorffen a flaenoriaethwyd gan y Fforwm Craffu - un yn edrych a polisi iaith addysg mewn ysgolion a'r llall ar gwynion adrannau sy'n darparu gwasanaethau cymdeithasol. Cyflwynwyd adroddiad blynyddol craffu i'r Cyngor er cymeradwyaeth ym mis Hydref, gan amlinellu'r gwelliannau sydd wedi digwydd i'r trefniadau craffu dros 24/25. Roedd dri mis yn hwyrach na'r arfer yn cael ei gyhoeddi gan fod adnoddau'r tîm wedi eu blaenoriaethu i waith yr ymchwiliad a chynnal sesiynau llunio rhaglen waith y pwyllgorau craffu.

Bu llawer o gydweithio gyda swyddogion o adrannau amrywiol ac o sefydliadau allanol er mwyn hybu'r Gymraeg. Cydlynwyd gwaith Fforwm Iaith Gwynedd sy'n cynnwys dros 20 o sefydliadau gwahanol. Bu'r fforwm yn gweithio ar greu strategaeth iaith a sefydlu is-grwpiau i edrych yn fwy manwl ar heriau defnyddio'r Gymraeg gan ein pobl ifanc, yn ein cymunedau, yn y maes blynyddoedd cynnar a'r maes busnes. Yn dilyn ymgynghoriad gyda phobl ifanc 16-18 oed a amlygodd nad oeddynt yn gweld y Gymraeg fel sgil gwerthfawr, mae'r is-grwp pobl ifanc yn cynllunio ymyraethau i hyrwyddo'r Gymraeg fel sgil gwerthfawr. Datblygwyd Prosiect 15, sy'n ceisio dylanwadau ar ddefnydd iaith cymdeithasol pobl ifanc ar y cyfryngau cymdeithasol, ymhellach gan roi sylw i geisio cael mwy o gynnwys addas, defnyddio dylanwadwyr a chynyddu dilynwyr.

Cyfrannwyd at waith Is-Grŵp y Gymraeg Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn a'r gwaith prosiect Chwalu'r Mythau am y Gymraeg sy'n adnodd i gynorthwyo sefydliadau i recriwtio siaradwyr Cymraeg yng ngogledd Cymru. Rhoddwyd mewnbwn i grŵp cynyddu defnydd mewnol o'r Gymraeg gan Comisiynydd y Gymraeg a hefyd i weithdy a gynhaliwyd i greu fframwaith iaith sy'n cydblethu gyda chymwysterau addysg i weithleoedd yn seiliedig ar y fframwaith CEFR diweddaraf. Rhoddodd swyddog fewnbwn i greu Siarter Twf y Gymraeg yn y Gwaith TUC Cymru. Bu aelod o staff yn y lansiad yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac yn aelod o banel trafod pwysigrwydd y Gymraeg yn y gweithle a beth all eraill wneud i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Rhoddodd y Cabinet sêl bendith i fabwysiadu'r siarter cyn y Nadolig.

Bu'r gwaith yn parhau gyda'r prosiect gwarchod enwau lleoedd Cymreig yn ystod y flwyddyn gyda sylw yn cael ei roi i hyrwyddo enwau lleoedd mewn ysgolion a chynyddu gweledd drwy osod arwyddion Cymraeg. Mae'r prosiect wedi dod i ben ddiwedd Mawth 26 ond bydd y gwaith o osod arwyddion Cymraeg fel bo angen eu hadnewyddu yn parhau am gyfnod. Rhoddwyd sylwadau hefyd ar 41 o asesiadau effaith a gyflwynwyd gyda cheisiadau cynllunio. Yn unol a'r arfer cyhoeddwyd adroddiad blynyddol cydymffurfiaeth gyda Safonau'r Gymraeg Cyngor Gwynedd a rhoddwyd sylw i wella cydymffurfiaeth mewn sawl maes gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol, gwefan, asesiadau effaith a chwynion.

## DI5 - Gwasanaeth Democratiaeth

### Sylw

Cynhaliwyd 109 o bwyllgorau ffurfiol yn ystod y flwyddyn, gyda 48 o'r cyfarfodydd hynny yn rhai aml leoliad yn cael eu gwe ddarlledu. Bu i 22,052 o wylwyr wylio'r gwe ddarlllediad.

Yn sgil Adroddiad Cyfiawnder drwy ein Dewrder.Amddiffyn Plant - cynhaliwyd 3 cyfarfod arbenig - o'r Cyngor Llawn, y Pwyllgor Craffu Gofal a'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi.

Bu i 2 aelod newydd gael eu hethol yn ystod y flwyddyn a bu cyfnod o anwytho i'r ddau.

Mae'r dechnoleg yn y siambrau wedi bod yn heriol trwy gydol y flwyddyn gyda phroblemau cyson o ran rhwydwaith, systemau allannol a phroblemau sain yn cael eu amlygu fel y prif heriau. Er hynny, drwy ddyfalbarhad y tîm, llwyddwyd i gynnal yr holl bwyllgorau ynghyd a gwe-ddarlledu'r cyfarfodydd i'r cyhoedd.

Mae gwaith paratoi ar gyfer etholiad 2027 wedi cychwyn, a gweithdai gyda aelodau i'w cynnal yn fuan yn y flwyddyn newydd er mwyn cael eu barn ar y cynlluniau drafft.

Dewis Blwyddyn: 2025-2026 | Dewis Chwarter: Chw 4 | Dewis Mis: Mawrth

# Iechyd, Diogelwch a Llesiant - Gail Warrington

## Pwrpas

Darparu arweiniad, cyngor a hyfforddiant arbenigol ym meysydd Iechyd Diogelwch a Llesiant mewn ffordd ragweithiol ac effeithiol.
Hynny er mwyn galluogi'r Cyngor i gyfarch gofynion a lleihau risgiau mewnol.


Switch to English

## Risgiau Cyfredol

| Risgiau Coch | Risgiau Oren | Risgiau Melyn | Risgiau Gwyrdd | |
|---|---|---|---|---|
| | 6 | 3 | | Cliciwch yma i weld y risgiau |

## ID1.1 - Adroddiadau RIDDOR (Chwarterol)

**Hyd cyfartalog i gwblhau adroddiadau RIDDOR yn ystod y chwarter diwethaf**





### Sylw

Dyma'r amser, mewn dyddiau, y mae wedi gymryd i'r Uned Iechyd a Diogelwch adrodd digwyddiadau RIDDOR chwarter olaf 2025-6 (h.y. y cyfnod rhwng dyddiad y digwyddiad a'r dyddiad adrodd). Mae hanner wedi eu hadrodd o fewn yr amserlen cyfreithiol (h.y. o fewn 10 neu 15 diwrnod yn dibynnu ar natur y digwyddiad). Mae'r hanner arall yn hwyr. 72926 oedd y digwyddiad gymerodd hiraf i'w adrodd (31 diwrnod) a hynny oherwydd fo'r digwyddiad heb ei adrodd gan y gwasanaeth (mis ar ôl y digwyddiad). Cymerodd 72538 a 72770 21 diwrnod oherwydd fo'r rheolwr llinell yn hwyr yn ymchwilio'r digwyddiad ac felly'r wybodaeth sydd ei angen i adrodd o dan reoliadau RIDDOR ddim ar gael yn brydlon. Roedd sefyllfa 72583 (17 diwrnod) ychydig yn wahanol, roedd rhaid trafod natur y sefyllfa yn ôl a blaen gyda'r Pennaeth perthnasol er mwyn gwneud penderfyniad allan os oedd yn disgyn o dan y rheoliadau RIDDOR ai peidio. Rydym yn gobeithio y bydd y system ddigidol yn golygu adrodd digwyddiadau ac adrodd o dan RIDDOR yn fwy prydlon.

## ID2.1 - Cyfeiriadau i Iechyd Galwedigaethol

**Canran o weithwyr sydd wedi dychwelyd i'r gwaith yn dilyn cael cyngor gan IG yn dilyn iddynt gael eu cyfeirio**




### Sylw

Derbyniwyd 1,070 cyfeiriad i'r Uned Iechyd Galwedigaethol rhwng mis Ebrill 2025 a mis Mawrth 2026.

Mynychodd 704 aelod staff apwyntiad yn yr Uned. Roedd 451 allan o'r 704 apwyntiad yn absennol o'r gwaith.


Yn dilyn ymyraethau megis asesiad risg, rhaglen dychwelyd graddol, addasiadau rhesymol mae 170 o unigolyn wedi datgan eu bod yn dychwelyd i'w gwaith.

Ar hyn o bryd mae rhestr aros o 4 wythnos am apwyntiad.

Mae'r mesur perffromiad yma wedi cael ei adolygu a bydd gwybodaeth / data newydd yn cael ei gyflwyno ar gyfer y flwyddyn i ddod.

## ID3.1 - Hyfforddiant IOSH (Chwarterol)

**Canran o reolwyr wedi cwblhau cwrs IOSH Rheoli'n Ddiogel**




### Sylw


Mae 70% o reolwyr (gan gynnwys Dirprwy Benethiaid Adran, Penaethiaid Ysgol, Rheolwyr Gwasanaeth, Arweinyddion Tîm/Goruchwylwyr, a rheolwyr safle) wedi cwblhau hyfforddiant IOSH Rheoli'n Ddiogel o fewn y dair mlynedd diwethaf - unai'r cwrs gwreiddiol neu gwrs adnewyddu. Mae hyn yn leihad o 74%.

Yn anffodus, er fo cyrsiau wedi rhedeg ers y cyfarfod herio perfformiad diwethaf a'r cyrsiau'n llawn ers rhai misoedd, roedd nifer uchel heb droi fyny ar y diwrnod neu wedi ymddiheuro funud olaf, gan arwain at ostyngiad yn y canran. Yng ngyrsiau 2025-26, mae 20% o fynychwyr heb droi fyny ar y diwrnod. Mae hyn er gwaethef ymdrechion yr Uned Iechyd a Diogelwch i dargedu rheolwyr a rhoi gwybod i Benaethiaid Adran pa reolwyr sydd heb fynychu, ac ymdrechion Dysgu a Datblygu i godi ffi pan nad ydi rhywun yn rhoi rheswm digonol i beidio mynychu. Posib fo trosiant mewn rheolwyr hefyd yn ychwanegu at y broblem.

Dros y chwarter nesaf, mae'r cyrsiau'n llawn unwaith eto, gyda 85 rheolwr wedi cofrestru i wneud y cwrs gwreiddiol neu adnewyddiad. Heb ganiatau am unrhyw drosiant, mae hynny'n golygu cynnydd yn y ganran i 83%.

## ID3.2 - Hyfforddiant Rheoli Safle (Chwarterol)

**Canran o reolwyr wedi cwblhau cwrs Rheoli Safle**





### Sylw

Mae 60% o reolwyr safle wedi cwblhau'r Hyfforddiant Rheoli Safle yn y dair mlynedd diwethaf - gostyngiad o'r 62% cafodd ei adrodd y chwarter diwethaf am resymau tebyg i IOSH. Mae hyn yn cynnwys rheolwyr safle sydd wedi cwblhau cwrs adnewyddu ar-lein (mae hwn ar gael ers diwedd 2024). Pe bai rheolwyr sydd angen adnewyddiad yn gwneud hynny drwy ddefnyddio modiwl e-ddysgu sydd ar gael ar-lein, mi fyddai'r canran dros 80%. Rydym wedi bod yn ymdrechu i godi ymwybyddiaeth gyda negeseuon ebyst uniongyrchol a drwy Benaethiaid Adran. Mae tri cwrs pellach wyneb yn wyneb wedi eu rhaglennu flwyddyn yma, a gyda cyrsiau llawn byddai'n bosib codi'r canran i dros 75%.

## ID3.3 - Hyfforddiant i-Act (Chwarterol)

**Canran o reolwyr wedi cwblhau cwrs i-Act**





### Sylw

Mae cyfarfod wedi ei gynnal gyda'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad er mwyn trafod hyrwyddo'r cwrs yn ehangach.

## ID4.1 - Profion Clyw (Chwarterol)

**Canran o'r profion ychwanegol clyw yn dilyn newid yn y gyfraith sydd wedi cael eu cynnal**





### Sylw

439 o unigolion wedi derbyn profion gwyliadwriaeth iechyd eleni. Gyda'r newid yn y gyfraith mae 350 o unigolion angen ei galw nol am brofion clyw ychwanegol.

## ID5 - Cwnsela (Chwarterol)

**Canran o weithwyr sy'n derbyn mwy na'r pedwar sesiwn cwnsela craidd**




### Sylw

Rhwng Ebrill 2025 a Mawrth 2026 mae 409 o staff y Cyngor wedi cael ei cyfeirio am wasaaeth cyfrinachol cwnsela.
Mae 122 o rheiny wedi derbyn sesiynau ychwanegol tu hwnt i'r 4 sesiwn craidd.

Dewis Blwyddyn: 2025-2026 | Dewis Chwarter: Chw 4 | Dewis Mis: Mawrth

# Ymchwil a Gwybodaeth - Emyr Edwards

**Pwrpas**

Galluogi'r Cyngor i drin a rheoli gwybodaeth yn gyfreithlon a'i ddefnyddio i wneud y penderfyniadau gorau, a galluogi'r cyhoedd i gael mynediad i ddata a gwybodaeth.

Switch to English


## Risgiau Cyfredol

| Risgiau Coch | Risgiau Oren | Risgiau Melyn | Risgiau Gwyrdd | |
|---|---|---|---|---|
| | 4 | | | Cliciwch yma i weld y risgiau |

## YG1 - Digwyddiadau Gwybodaeth

**Nifer digwyddiadau gwybodaeth wedi eu hadrodd i'r Swyddog Diogelu Data**

Blwyddyn ● 2024-2025 ● 2025-2026




**Sylw**

Er gwaetha'r ffaith yr adroddwyd rhywfaint mwy o ddigwyddiadau gwybodaeth yn Ionawr - Mawrth nag yn y misoedd blaenorol, dros y flwyddyn gyfan fe welwyd gostyngiad arwyddocaol (29 yn 2025/26, o'i gymharu â 42 yn 2024/25).

Mae'r patrwm yma yn galonogol iawn, yn enwedig gan ei fod wedi digwydd mewn cyfnod lle 'rydym yn ymwybodol bod trefniadau i adrodd ar ddigwyddiadau wedi'u gwella a'u cryfhau mewn nifer o adrannau'r Cyngor. Mae'n awgrymu bod yr ymdrechion i hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth yn dwyn ffrwyth felly, ac fe fyddwn yn parhau i roi sylw i hyn.


O ran Adrannau roedd 9 o'r digwyddiadau yn Gwasanaethau Corfforaethol, 5 yn Addysg, 4 yn Oedolion, 3 yn Tai ac Eiddo a'r gweddill yn 1 neu 2 ym mhob Adran arall.

Mae mwyafrif y digwyddiadau (18 o'r 29 yn y flwyddyn) yn parhau i ddeillio o e-byst yn cael eu hanfon at y derbynnydd anghywir - er bod y nifer yma wedi gostwng ychydig yn dilyn gwaith codi ymwybyddiaeth a newidiadau i'r system e-bost, mae'n ymddangos ei bod yn anodd iawn cyflawni gostyngiad pellach yn yr elfen yma. Er hyn, gyda dros 5 miliwn o e-byst yn cael eu hanfon yn y Cyngor yn flynyddol mae'r camgymeriadau yn ymwneud â chyfran fach iawn ohonynt.

## YG1a - Digwyddiadau Gwybodaeth - Ysgolion

**Nifer digwyddiadau gwybodaeth wedi eu hadrodd i'r Swyddog Diogelu Data**

Blwyddyn ● 2024-2025 ● 2025-2026




**Sylw**

Fe adroddwyd 12 digwyddiad gwybodaeth gan Ysgolion yn 2025/26, o'i gymharu â 5 digwyddiad yn 2024/25.


Ar yr wyneb byddai'n ymddangos bod perfformiad wedi gwaethygu felly, ond rydym wedi bod yn mynd o amgylch ysgolion yn ystod y flwyddyn i gynnal sesiynau hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth staff yno am yr angen i adrodd digwyddiadau, ac mae trefniadau cofnodi ac adrodd digwyddiadau mewn ysgolion wedi'u cryfhau yn sylweddol eleni.

Byddwn yn cadw llygad ar batrwm y digwyddiadau dros y flwyddyn nesaf ac yn parhau â'r gwaith o gynyddu ymwybyddiaeth.

## YG2 - Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth

**Canran Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth atebwyd o fewn 20 dydd gwaith**

Blwyddyn ● 2025-2026




**Sylw**

** Ffigwr Mawrth yn amodol ar hyn o bryd (dyddiad targed rhai ceisiadau gyrhaeddodd fis Mawrth heb fod eto) **

Mae lefel perfformiad wedi gwella'n sylweddol eleni (ffigyrau 2024/25 ddim yn dangos yn y siart yma gan nad oedd modd ei fesur ar sail misol, ond y canran ar gyfer 2024/25 gyfan oedd 76%; canran gyfansawdd 2025/26 yn 89.9%). Mae hyn hefyd yng nghyd-destun cynnydd o 8% yn nifer y ceisiadau dderbyniwyd (o 1,132 yn 2024/25, i 1,222 yn 2025/26).


Rydym yn parhau i dybio bod y gwelliant yma'n deillio o ymdrechion i godi ymwybyddiaeth o'r maes, cryfhau trefniadau a pholisïau a chyflwyno cwrs hyfforddiant mandadol newydd i staff; yn ogystal â phroffil uwch y maes yn gyffredinol yn dilyn archwiliad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod y flwyddyn. Mae'r dashfwrdd perfformiad 'byw' gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn wedi galluogi swyddogion i gadw llygad cyson ar y sefyllfa ac ymateb i unrhyw resymau am oedi wrth iddynt godi.

I wella'r canran ymhellach eto, byddai angen un ai cynyddu capasiti i ymateb yn yr Adrannau (sy'n annhebygol) neu bod yn rhagweithiol o ran cyhoeddi mwy o wybodaeth ar y wefan - felly fe fyddwn yn canolbwyntio ar hynny dros y flwyddyn nesaf yn enwedig gan y bydd y Cyngor yn lawnsio gwefan newydd.

## YG3 - Ceisiadau Diogelu Data (Chwarterol)

**Canran Ceisiadau Diogelu Data atebwyd o fewn yr amserlen**

Blwyddyn ● 2024-2025 ● 2025-2026




**Sylw**


Cafwyd dwbl nifer y ceisiadau o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (113 yn 2025/26, o'i gymharu â 57 yn 2024/25). O ystyried hyn, mae'r ffaith i berfformiad aros fwy neu lai'n gyson (80% yn 2025/26, o'i gymharu â 82% yn 2024/25) yn ganmoladwy iawn ac yn adlewyrchu'r sylw a'r gwaith caled fu angen ei roi i'r maes yma yn ystod y flwyddyn.

Mae cynghorau eraill yn y rhanbarth hefyd wedi nodi eu bod wedi gweld cynnydd tebyg yn y niferoedd, ar draws amryw o wahanol wasanaethau - mae'n ymddangos bod tipyn o'r cynnydd yn ymwneud â defnydd cynyddol o AI gan ymgeiswyr i'w helpu i baratoi ceisiadau. Fe fydd angen parhau i gadw golwg ar hyn, ac ar y goblygiadau o ran yr adnodd sydd ei angen i ateb y ceisiadau, dros y flwyddyn nesaf.

## YG3a - Ceisiadau Diogelu Data - Ysgolion (Chwarterol)

**Canran Ceisiadau Diogelu Data atebwyd o fewn yr amserlen**

Blwyddyn ● 2025-2026




**Sylw**

O'r 25 cais atebwyd yn y flwyddyn fe atebwyd 20 ohonynt o fewn yr amserlen (Ffigwr amodol gan bod 5 cais arall yn dal yn agored ac yn dal o fewn yr amserlen ar hyn o bryd).

Mae'r ffigwr yma yn agos iawn i'r canran ar gyfer ateb ceisiadau diogelu data ar draws y Cyngor (mesur YG3 uchod), gyda materion tebyg yn codi o ran cymhlethdod rhai ceisiadau a'r adnodd sydd ar gael i ateb nifer cynyddol ohonynt.

## YG4 - Prosiectau Ymchwil a Gwybodaeth

**Sylw**

Gwynedd yw'r awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru lle mae pob ysgol wedi mabwysiadu Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol (WASPI) - mae hyn yn sicrhau, pryd bynnag y bydd angen rhannu gwybodaeth sensitif i amddiffyn disgybl, y caiff hyn ei wneud mewn ffordd gwbl safonol , yn ddiogel a chyda cyfrinachedd cyfreithiol llwyr. Cafwyd nodyn o ddiolch gan Lywodraeth Cymru oedd yn nodi bod hyn yn arddangos ymrwymiad at rannu gwybodaeth bersonol yn briodol er mwyn diogelu myfyrwyr ac yn deillio o ymroddiad y Swyddog Diogelu Data Ysgolion ynghyd â'r adran Addysg ac arweinwyr ysgolion.

Ar ôl gwaith dros y flwyddyn ar gyflawni elfen 'Gwybodaeth a Data' Cynllun Digidol y Cyngor mae yna gynnydd sylweddol yn y defnydd o ddashfyrddau data gyda 25 dashfwrdd bellach wedi'u sefydlu ac yn cael eu cynnal gan y tîm gan gynnwys adrodd ar staff yn cwblhau hyfforddiant mandadol, data am ardaloedd lleol Gwynedd, a dadansoddi canlyniadau arolwg Llais Staff. Bydd gwaith pellach yn y maes yma yn y flwyddyn nesaf gan gynnwys gallu rhannu dashfyrddau yn ehangach mewn ffordd ddiogel.

Rydym wedi bod o amgylch timau rheoli holl adrannau'r Cyngor yn ddiweddar yn codi ymwybyddiaeth am wahanol elfennau o iGwynedd a'r potensial i'w ddefnyddio i hwyluso gwelliannau gwasanaeth. Cafwyd adborth positif i'r sesiynau hyn a byddwn yn dilyn i fyny ar y pwyntiau amrywiol a godwyd.

Rydym wedi bod yn rhan o grŵp prosiect Llechen Las (Adnabod y cyfleoedd o ran gwasanaethau i blant ag anableddau) gan gyfrannu dadansoddiadau ac ymchwil o ran newidiadau demograffig a thueddiadau yn niferoedd y plant anabl a'r galw am wasanaethau yn lleol ac yn genedlaethol.

Dewis Blwyddyn: 2025-2026 | Dewis Chwarter: Chw 4 | Dewis Mis: Mawrth

# Ymgynghorol Adnoddau Dynol - Eleri Jones

## Pwrpas

Cefnogi rheolwyr a staff i fod yn fodlon a chynhyrchiol yn eu gwaith, trwy roi cyngor ac arweiniad ar faterion cyflogaeth a chydraddoldeb a hyrwyddo arferion da yn y ddau faes.
Arwain y gwaith o ddatblygu'r amodau gwaith lleol, a sicrhau fod materion cydraddoldeb yn ganolog i waith ein holl wasanaethau.


Switch to English

## Risgiau Cyfredol

| Risgiau Coch | Risgiau Oren | Risgiau Melyn | Risgiau Gwyrdd | |
|---|---|---|---|---|
| | 2 | 2 | 1 | Cliciwch yma i weld y risgiau |

## AD01 - Dyddiau Salwch

**Nifer o ddyddiau salwch staff y pen yn y Cyngor ar gyfartaledd**




### Sylw


Mae lefel absenoldeb salwch y Cyngor yn parhau ar gynnydd gyda'r cyfanswm cronnus hyd at ddiwedd Mawrth 2026 yn 13.01. Mae'r patrwm hynny yn un cyson ers sawl blwyddyn bellach. Mae hyn peri pryder o ystyried yr amcangyfrif cost llynedd oedd yn deillio o absenoldeb salwch, heb son wrth gwrs am y pryder ynghylch iechyd a lles staff a'r pryder posib i wytnwch gwasanaethau. Dyma'r camau cychwynnol sydd wedi eu sefydlu i fynd i'r afael a'r sefyllfa yma:

1. Mae'r sefyllfa wedi ei huchafu i lefel uchel yn y gofrestr risg corfforaethol
2. Rhannu dadansoddiad o lefelau salwch adrannol a chamau gweithredu gyda'r tîm rheoli corfforaethol a timau rheoli adrannol
3. Buddsoddiad amser gyda rheolwr ac arweinyddion timau i ddilyn prosesau a chynnal sgyrsiau gyda staff yn amserol ac effeithiol. Dengys ymchwil yn y maes adnoddau dynol fod cynnal sgyrsiau amserol ac effeithiol gyda staff, a dilyn prosesau'n gywir a chyson, yn arwain at ostyngiad mewn lefelau salwch dros amser.

Mae yna lawer o waith da yn digwydd eisoes gan adrannau a nifer o wasanaethau cefnogol yn y maes hwn, ond mae'r sefyllfa sydd ohono ar hyn o bryd yn gofyn am ymyrraeth benodol i ychwanegu at hynny.

## AD02 - Pwyllgor Apel Cyflogaeth (Blynyddol)

**Nifer penderfyniadau apeliadau sy'n cefnogi penderfyniad y cyflogwr (achosion cyflogaeth sydd yn cael eu cyfeirio at y Pwyllgor Apel Cyflogaeth)**





### Sylw

Mae'r mesur hwn yn dangos faint o benderfyniadau mae'r pwyllgor apêl cyflogaeth yn eu cymryd sydd yn newid penderfyniad gweithredol swyddogion y Cyngor mewn perthynas ag achosion cyflogaeth. Gall gwaith y Pwyllgor hwn arwain at amlygu pryderon am benderfyniadau neu batrymau o ddigwyddiadau ac achosion o fewn y Cyngor yn gyffredinol neu adrannau penodol. Yn ystod 2025/26, bu i'r pwyllgor ymdrin â 7 achos, gyda 5 o'r penderfyniadau hynny yn gyson â phenderfyniad gweithredol swyddogion y Cyngor a 2 wedi eu gwrthdroi (29%).

## AD03a - Disgyblaeth

**Nifer dyddiau gymerwyd i gwblhau achosion disgyblu staff**





### Sylw

Yn ystod 2025/26 bu 148 achos disgyblu o'r newydd, gyda 115 o'r achosion hynny wedi eu cau a 33 yn parhau yn agored. Mae'r graff yn dangos fod yna 4 o achosion dros y flwyddyn hyd yn hyn wedi mynd dros y terfyn uchaf ar gyfer cwblhau achosion.

Byddwn fel tîm yn edrych ar amgylchiadau'r achosion hyn ac adlewyrchu os oedd unrhyw beth y gallem ni ddylanwadu arno er mwyn eu datrys ynghynt. Gall nifer o achosion fod yn gymhleth iawn, ond credwn fod angen o leiaf herio ein hunain fel cyflogwr ynghylch sut yr ydym yn delio â sefyllfaoedd o'r math i'r dyfodol ac oes unrhyw welliannau y gallwn eu cynnig i'n prosesau ni yma yng Nghyngor Gwynedd.

## AD03b - Cwynion (Chwarterol)

**Nifer achosion cwynion staff**





### Sylw

Ymdriniwyd â 19 o gwynion ffurfiol gan staff dros y flwyddyn 2025/26 gyda 5 o'r achosion hyn wedi cyrraedd yn ystod chwarter 4 y flwyddyn. Mae'r nifer o gwynion ychydig yn uwch na'r flwyddyn blaenorol ble cyflwynwyd 15 o gwynion ffurfiol ond er hynny mae'r niferoedd hyn yn parhau'n gymharol isel, o ystyried fod y ffigwr yn cynnwys y cwynion ffurfiol hynny sydd yn cael eu cyflwyno o fewn ein hysgolion, yn ogystal â gwasanaethau ehangach y Cyngor. Mae'r sylwadau sydd wedi eu rhoi yn yr adroddiad hwn ynghylch effaith prosesau ar lesiant staff mewn perthynas ag achosion disgyblu yn berthnasol ar gyfer prosesau cwynion hefyd, ac byddwn yn cydweithio â'r undebau llafur er mwyn gweld sut y gellir gwella prosesau yn y maes hwn lle'n bosib.

## AD04 - Perfformiad cwblhau Arfarniadau Swydd

**Nifer dyddiau i gwblhau arfarniad swydd**




### Sylw

Yn ystod 2025/26 derbyniwyd 218 o o geisiadau gan reolwyr i gynnal arfarniadau cyflog swyddi, a chwblhawyd 182 o'r rheini. Mae'r amser i gwblhau arfarniadau yn parhau i amrywio, gyda'r cyfartaledd oddeutu 23 diwrnod. Cymerodd 6 arfarniad lawer yn fwy o amser na'r cyfartaledd i'w datrys ac rydym fel tim eisoes wedi adolygu'r sefyllfaoedd hynny. Prif sgil effaith hynny i adrannau wrth fod yna oedi ydi eu gallu i newid swyddi / ailstrwythuro gwasanaethau, a gan ddeall pa mor bwysig yw hynny rydym fel tîm yn ceisio blaenoriaethu yr arfarniadau hynny, weithiau ar draul unrhyw geisiadau i ôl ddyddio addasiadau swyddi a newidiadau cyflog i staff unigol. Yn nghanol y galw ehangach sydd ar y Gwasanaeth hefyd, mae arfarniadau yn dueddol o gael y flaenoriaeth gyda'r isaf pan fo yna bwysau sylweddol ar y tîm.

2025/26 – 218 o arfarniadau wedi eu derbyn, 182 wedi cwblhau
2024/25 – 147 o arfarniadau wedi eu derbyn, 126 wedi cwblhau

## AD99 - Gweithgaredd arall y Gwasanaeth

### Sylw

Adnoddau Dynol:
Mae'r tim wedi parhau i gael cyfnodau heriol o ran capasiti dros y flwyddyn diwethaf yn sgil cyfnodau o absenoldebau ac ymddiswyddiadau. Yn ogystal a hyn, mae'r elfen weithredol o waith Adnoddau Dynol yn parhau i fod yn drwm ar adnoddau'r tîm. Mae aelodau newydd bellach wedi ymuno a'r tîm ar sail dros dro i helpu gynyddu'r capasiti ac i helpu symud rhai prosiectau datblygol y tîm yn ei flaen.

Dyma rai o brif lwyddiannau datblygol y tîm Adnoddau Dynol dros y flwyddyn a fu;
• Parhau i rowlio allan rhaglen hyfforddiant i Reolwr ac Arweinyddion Tim ar y Polisi Absenoldebau Salwch
• Gwasanaeth wedi bod yn rhan o ddylunio a rhedeg sawl proses penodi prif swyddogion, o fewn y Cyngor ac yn rhanbarthol
• Cydweithio gyda'r 5 Cyngor ar ddatgymalu'r gwasanaeth GwE gyda oblygiadau TUPE/ail strwythuro/a diswyddiadau. Ni chafwyd unrhyw achos tribiwnlys yn dilyn y diswyddiadau.
• Cynorthwyo gyda TUPE Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru i CBC

Cydraddoldeb:
• Gwaith yn parhau i ymateb i ddyfarniad yr Oruchaf Lys yn achos For Women Scotland vs The Scottish Ministers. Er bod y dyfarniad wedi dod i rym yn syth ar ei gyhoeddiad yn Ebrill 2025, yn ymarferol mae'r dyfarniad yn golygu bod angen i sefydliadau ystyried sut y gallant gyfarch gofynion y cyfreithiau perthnasol yn llawn. Mae cyhoeddi canllawiau manwl gan y Comisiwn yn allweddol i hynny yn enwedig yn sgil y ffaith fod eu canllawiau interim wedi eu tynnu'n ôl.
• Fforwm Cydraddoldeb wedi ei sefydlu gyda rhaglen o gyfarfodydd chwarterol ac eitemau penodol yn cysylltu i faterion cyflogaeth byw o fewn y Cyngor e.e. datblygiad polisïau adnoddau dynol.
• Cyrraedd Achrediad Lefel 2 o'r safon Hyderus o ran Anabledd ac yn anelu cyrraedd Achrediad Lefel 3 nesaf.
• Darparwyd hyfforddiant ar feysydd newydd- e.e. LGBTQ+